Triniaeth gyda gwrthfiotigau Aminoglycosid (Amikacin, Gentamicin, Tobramycin).

Rydych chi wedi cael y daflen hon oherwydd bod eich meddyg eisiau i chi gymryd gwrthfiotigau aminoglycosid gan ei fod yn credu mai dyma'r gwrthfiotig gorau i'w ddefnyddio ar gyfer eich haint.

Beth yw aminoglycosid?
Mae aminoglycosidau yn grŵp o wrthfiotigau a ddefnyddir i drin neu atal heintiau bacteriol difrifol. Efallai mai aminoglycosid yw'r math gorau o wrthfiotig ar gyfer y bacteria sy'n achosi eich haint neu efallai bod eich meddyg wedi penderfynu defnyddio un o'r cyffuriau hyn oherwydd nad yw'n bosibl defnyddio rhai eraill (e.e., os oes gennych alergedd i wrthfiotigau eraill).

Sut fydda i'n cael aminoglocosidau?
Rhoddir gwrthfiotigau aminoglycosid drwy wythïen, yn yr ysbyty fel arfer. Mae'r dos yn dibynnu os yw aminoglycosid yn trin neu'n atal haint, beth yw'r haint, eich oedran, eich pwysau, eich taldra a pha mor dda y mae eich arennau'n gweithio. Fel arfer rhoddir aminoglycosidau unwaith y dydd ond am lai nag wythnos, ac eithrio mewn rhai achosion, fel heintiau'r galon.



Sut all aminoglycosidau effeithio ar fy nghlustiau?
Gall pob meddyginiaeth achosi sgil-effeithiau/effeithiau anffafriol. Maent yn effeithiol iawn ond mewn achosion anghyffredin, gall aminoglycosidau achosi niwed i'r clustiau (problemau clyw/cydbwysedd) yn enwedig o'u defnyddio am gyfnod hir. Efallai bydd gennych sŵn canu yn eich clustiau (tinitws) neu efallai na fyddwch yn gallu clywed cystal ag arfer. Dywedwch wrth y meddyg neu'r nyrs sy'n gofalu amdanoch ar unwaith os byddwch chi'n profi'r symptomau hyn, fel y gellir lleihau'r risgiau posibl i'ch clyw.

Rydych chi mewn mwy o berygl o brofi niwed i'r glust os ydych chi dros 65 mlwydd oed neu os nad yw'ch arennau'n gweithio'n dda. Gall meddyginiaethau eraill hefyd gynyddu eich risgiau o niwed i'ch clyw felly mae'n anodd i ni wybod yn union pa mor debygol yw niwed i'r glust i gleifion unigol.



Sut gall aminoglycosidau effeithio ar fy arennau?
Gall niwed i'ch arennau fod yn sgil-effaith arall o driniaeth aminoglycosid. Os bydd hyn yn digwydd, efallai na fydd eich arennau'n gallu cael gwared â chynhyrchion gwastraff cystal ag arfer. Efallai y byddwch chi'n teimlo'n gyfoglyd, efallai y byddwch chi'n teimlo eich croen yn cosi neu efallai y byddwch yn sylwi ar chwydd o amgylch eich fferau. Fel arfer, gellir gwrthdroi'r effeithiau hyn. Gellir addasu dosau meddyginiaethau eraill rydych chi'n eu cymryd hefyd i leihau'r risg o niwed i'r arennau.

Beth ellir ei wneud i leihau'r risg?
Bydd eich gweithiwr proffesiynol gofal iechyd yn trafod risgiau a manteision y driniaeth gyda chi. Efallai bod gwrthfiotigau eraill ar gael i reoli eich haint, ond nid yw hyn bob amser yn bosibl, yn enwedig gyda heintiau difrifol.

Os cewch bresgripsiwn ar gyfer aminoglycosid, bydd y swm yn eich gwaed yn cael ei fesur gyda phrofion gwaed bob ychydig ddyddiau i wirio nad yw'n cronni. Bydd eich meddyg hefyd yn gwirio swyddogaeth eich arennau cyn i chi ddechrau cymryd aminoglycosid. Os ydych chi'n cael eich trin ag aminoglycosid am fwy na 7 diwrnod, efallai y gofynnir i chi gael prawf clyw.

Os ydych chi'n cymryd tabledi dŵr (diwretigion), fel ffwrosemid (Furosemide) neu boenleddfwyr fel Ibwproffen (Ibuprofen), efallai y byddwn yn gofyn i chi stopio eu cymryd dros dro tra byddwch chi'n cymryd aminoglycosid gan y gallant gynyddu'r risg o niwed i'r glust a/neu'r arennau. Os oes rhaid dal ati i'w cymryd, byddwn yn eich monitro'n ofalus.

Oes unrhyw beth y gallaf ei wneud i helpu?
Gan y gall meddyginiaethau eraill effeithio ar y ffordd mae aminoglycosidau'n gweithio, mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym am yr holl feddyginiaethau rydych chi'n eu cymryd, gan gynnwys rhai rydych chi'n eu prynu i chi'ch hun nad ydynt ar bresgripsiwn ac unrhyw feddyginiaethau llysieuol neu atchwanegiadau.

Dylech hefyd ddweud wrthym os oes gennych alergeddau, os ydych wedi cael problemau gyda'ch clyw neu'ch arennau yn y gorffennol neu os oes gennych gyflwr o'r enw myasthenia gravis.

Os ydych chi'n profi unrhyw broblemau fel anhawster cadw'ch cydbwysedd, pendro, canu yn eich clustiau neu golli clyw, mae'n bwysig iawn eich bod chi'n dweud wrth eich gweithiwr proffesiynol gofal iechyd ar unwaith.

Gyda phwy alla i siarad os oes gen i gwestiynau?
Mae'r daflen hon yn ymwneud yn benodol â sgil-effeithiau aminoglycosidau o ran niwed i'r clustiau a'r arennau. Os hoffech gael gwybodaeth am sgil-effeithiau eraill, mae taflen gan y gwneuthurwyr cynnyrch ar gael ym mhob blwch o aminoglycosid. Os dymunwch, gall y staff nyrsio ddarparu hyn ac mae hefyd ar gael yma: www.medicines.org.uk

Os oes gennych fwy o gwestiynau, siaradwch â'r meddyg, y fferyllydd neu'r nyrs sy'n gofalu amdanoch chi.